



|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Annwyl Brif Weinidog,</p> <p>Ysgrifennwn ar ran y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae yng Nghymru.</p> <p>Fel y gwyddoch, rhyngom rydym yn cynrychioli buddiannau gweithwyr allweddol (sy'n aml ar dâl isel) sydd yn hanfodol i rediad esmwyth ein gwlad mewn amryw o ffyrdd.</p> <p>Deallwn fod eich cydweithiwr, y Gweinidog Ken Skates AC, heddiw wedi datgan y bydd yna nifer o fesurau yn cael eu cyflwyno i ddiogelu gweithwyr (cyflogedig a hunangyflogedig fel ei gilydd) trwy "gefnoogaeth busnes" ariannol uniongyrchol.</p> <p>Tra'n bod yn deall y byddwch heddiw yn derbyn cynrychiolaeth oddi wrth yr holl sectorau, hoffwn bwysleisio bod y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae yn un cymhleth tu hwnt, gan fod yna feithrinfeydd preifat, gofalwyr plant sy'n fasnachwyr unigol neu'n hunangyflogedig, Cylchoedd Meithrin a grwpiau chwarae sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol ond sydd â staff cyflogedig proffesiynol; a chlybiau gofal plant cofleidiol / allan o'r ysgol a rhedir gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol neu ddarparwyr preifat (sydd hefyd yn cyflogi staff).</p> <p>Mae gan nifer (ond nid bob un) o'r rhain statws elusennol, a ni fyddent o reidrwydd yn gweld eu hunain yn perthyn i'r "sector breifat", er bod eu gwaith a chyflogaeth yn ddibynnol iawn ar gefnogaeth barhaus gan y llywodraeth. Tra bydd nifer o ddarparwyr blynyddoedd cynnar bellach yn medru derbyn nawdd gan y llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar), mae yna nifer o unigolion a lleoliadau sy'n darparu gofal plant cofrestredig sy'n dibynnu ar incwm o ffioedd rieni; yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal ar draws ystod eang o oeddrannau. O dan yr amgylchiadau presennol, mae'r incwm yna yn debygol o ddiffannu dros nos.</p> <p>Gofynnwn i chi sicrhau y diogelir yr holl ofalwyr plant hunan-gyflogedig a gweithiwr cyflogedig o fewn ein sector, beth bynnag eu statws, a'u bod yn derbyn y math o gefnogaeth ariannol y mae Canghellor y Trysorlys wedi awgrymu fydd yn debygol o gael ei darparu.</p> <p>Dymunwn yn dda i chi yn y cyfnod heriol hwn, wrth i chi fynd i'r afael â newidiadau mor gymhleth a digynsail.</p> | <p><i>Dear First Minister,</i></p> <p><i>We write on behalf of the childcare, early years and play sector in Wales.</i></p> <p><i>As you know, between us we represent the interests of vital workers (often on low pay) who are instrumental to the smooth running of our nation on several fronts.</i></p> <p><i>We understand that today your colleagues, Minister Ken Skates AM announced a package of measures to protect workers (both salaried and the self-employed) in the form of direct financial "business support".</i></p> <p><i>Whilst we understand that you will be receiving representations from all sectors today, we'd like to press upon you that the childcare, early years and play sector is vastly complex in that there are private nurseries, sole trading and self-employed child-minders, Cylchoedd Meithrin and playgroups run by voluntary management committees but staffed by professional salaried employees and Out of School Childcare Clubs run by voluntary management committees or by private providers (similarly employing salaried employees).</i></p> <p><i>Many (but not all) settings will have charitable status and will not necessarily see themselves as belonging to the "private sector" but whose employment and salary very much depends on continued support by government. Whilst many early years providers will now still be able to receive funding (Childcare offer, Flying Start and Early Education following Welsh Government announcements) there are many individuals and settings providing registered childcare who depend heavily on income in the form of parental fees, particularly those providing childcare across a broader age range. Such income is likely to disappear tonight under current circumstances.</i></p> <p><i>We press upon you to ensure that all self-employed childminders and salaried workers (regardless of status) within our sector are protected and are provided with the type of financial support that the Chancellor of Exchequer has (also) suggested is likely to follow.</i></p> <p><i>We wish you well in these uncertain times as you have to grapple with such complex and unprecedented challenges.</i></p> |
| <p>Yr eiddoch yn gywir,</p> <p>Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin<br/>Jane O'Toole, Prif Weithredwr Clybiau Plant Cymru Kids Clubs<br/>David Goodger, Prif Weithredwr Blynyddoedd Cynnar Cymru/Early Years Wales<br/>Claire Protheroe, Prif Swyddog Pacey Cymru<br/>Sarah Coates, Prif Swyddog NDNA Cymru</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |